# Golygyddol – Meithrin Arloesedd mewn Ymchwil ac Ymarfer Addysgol yng Nghymru

Gary Beauchamp, Tom Crick ac Enlli Thomas

Pan gymeron ni'r awenau fel golygyddion am y tro cyntaf ar gyfer rhifyn 23(1) yn 2021, fe wnaethom nodi bod 'y rhifyn hwn yn cynrychioli'r cam nesaf yn esblygiad y cylchgrawn' (Beauchamp, Crick a Thomas, 2021, t.3). Er nad ydym eisiau ailadrodd ein hunain, mae'r rhifyn *hwn* yn cynrychioli'r cam nesaf yn esblygiad y cylchgrawn. Diolch i gymorth cydweithwyr yng Ngwasg Prifysgol Cymru, fe wnaethom ganolbwyntio i ddechrau ar y cynnwys a'r ansawdd (a fydd, wrth gwrs, yn parhau), cyn cyflwyno gwefan ar-lein a system gyflwyno newydd. Fodd bynnag, mae'r amser wedi dod i ni ystyried diwyg ac arddull y cylchgrawn hefyd. Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys dau newid bach, ond arwyddocaol, i'r arfer a sefydlwyd yn nyddiau cynnar y cylchgrawn; yn rhannol er mwyn cydnabod natur newidiol y byd cyhoeddi ysgolheigaidd (Tennant et al., 2019), ond hefyd yn sgil gwaith ymchwil, polisi ac ymarfer addysgol ar ôl y pandemig yng Nghymru (Thomas, Crick a Beauchamp, 2023). Yn gyntaf, wrth restru'r awduron ar ddechrau'r erthyglau, ni fyddwn yn ychwanegu teitlau academaidd o hyn ymlaen, er mwyn osgoi hierarchaethau a strwythurau grym ymddangosiadol, gan gydnabod bod cyfraniadau pob awdur mor ddilys â'i gilydd. Yn ail, mae'r ffurfdeip a'r teiposod a ddefnyddir yn y cylchgrawn wedi cael eu newid am y tro cyntaf ers ei sefydlu er mwyn adlewyrchu fformat ac arddull fwy modern, sy'n fwy cydnaws â nodau›r cylchgrawn, yn ogystal â chylchgronau academaidd eraill yn ein disgyblaeth.

Yn ein rhifyn cyntaf, fe wnaethom nodi hefyd y bydd 'yr ymchwil amlddisgyblaethol a rhyngddisgyblaethol ddwyieithog a gyhoeddwn yn seiliedig ar ddamcaniaeth, yn fethodolegol gadarn, yn cael ei dadansoddi'n drylwyr, ac yn cynnig canfyddiadau y gellir eu rhoi ar waith mewn lleoliadau addysgol ledled Cymru, ar bob oedran ac ym mhob sector' (Beauchamp, Crick a Thomas, 2021, t. 3). Rydym yn credu ein bod yn cyflawni hyn, ond rydym yn awyddus hefyd i annog mwy o amrywiaeth o ddulliau yn yr erthyglau a gyflwynir. Mewn astudiaeth o gyflwyniadau yn ymwneud ag addysg i Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) y DU a gynhaliwyd ddiwethaf yn 2021, mae

*https://doi.org/10.16922/wje.27.1.1cym*

Inglis et al. (2024, t. 2495) yn awgrymu bod gwaith ymchwil mewn addysg (o leiaf o ran allbynnau a gyflwynir i'r REF) wedi mynd yn llai ansoddol ac yn fwy meintiol dros amser. Hyd yn hyn, fodd bynnag, mae cyflwyniadau i *Cylchgrawn Addysg Cymru* bron yn gyfan gwbl ansoddol, ac yn aml iawn maent yn mabwysiadu ystod gul o ddulliau e.e. cyfweliadau a grwpiau ffocws. Rydym yn derbyn yn llawn bod y dulliau hyn yn gallu bod yn ddamcaniaethol, yn fethodolegol gadarn ac wedi'u dadansoddi'n drylwyr, ond hoffem hefyd annog cyflwyniadau sy'n archwilio dulliau newydd. Rydym yn cydnabod nad oes modd darparu rhestr ddiffiniol a chynhwysfawr o Baradeimau ymchwil gymdeithasol ac addysgol (Hammersley, 2012), ond rydym yn awgrymu bod yna lawer o ddulliau ymchwil methodolegol gadarn nad ydynt yn cael eu defnyddio na'u cyhoeddi'n ffurfiol ar hyn o bryd yng Nghymru. Er mwyn hyrwyddo gwaith archwilio - ac efallai hyd yn oed ysgogi dadl - yn y rhifyn hwn rydym yn cynnwys erthygl sy'n defnyddio *currere* fel dull ymchwil. Dyma esboniad arloeswr y dull hwn, William Pinar (2017, t.1): 'The Latin infinitive of curriculum - *currere* - I invoked in 1974 to emphasize the experience of curriculum, lived embodied experience that was structured by the past while focused on the future'. Mae'n bosibl bod y dull hwn yn newydd i lawer o bobl, ond mae hanes hir i *currere*, ac yng Nghymru mae *Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol y Cwricwlwm ac Addysgeg* (CRN) - un o bedwar CRN a ariennir gan Lywodraeth Cymru[1] – wedi cynnal cyfres o enciliadau (gweler Smith, 2024) gan ddefnyddio'r dull hwn i ddatgelu

> how delving into *currere* helps educators share and reflect honestly and powerfully and allows them to take stock of the personal power of their life experiences to shape the way they think of curriculum and teaching and students on a day-to-day, moment-by-moment basis (Poetter, 2024, t. 52).

Gobeithio y byddwch yn parhau i gefnogi Cylchgrawn Addysg Cymru trwy ddefnyddio'r dulliau presennol, ond rydym hefyd yn cyhoeddi her i archwilio sut y gallwn ni wneud gwaith ymchwil addysgol yng Nghymru er mwyn datgelu mewnwelediadau newydd '*yng* Nghymru, *o* Gymru, ac *i* Gymru' (Beauchamp et al., 2022, t.1). Mae hyn yn ymestyn ymhellach i'n casgliad *Ffocws ar Ymarfer* [2], sy'n cynnwys erthyglau byrrach yn ymchwilio i ymarfer effeithiol o ansawdd uchel, ble bynnag a sut bynnag y mae'n digwydd.

1 Cwricwlwm ac Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol, Addysg Ddwyieithog a'r Gymraeg, Tegwch a Chynhwysiant.

2 Gweler: https://journal.uwp.co.uk/wje/site/focus/

Yn olaf, hoffem ddiolch eto i awduron Rhifyn Arbennig Cylchgrawn Addysg Cymru (26:2) *Chwarter Canrif o Addysg Ddatganoledig yng Nghymru: Adolygiad* (gweler Davies a Beauchamp, 2024). Yn yr amser byr ers iddo gael ei gyhoeddi, mae llawer o bobl wedi darllen a lawrlwytho'r rhifyn hwn, sy'n awgrymu ei fod yn amserol ac y bydd yn rhoi cipolwg unigryw ar adeg dyngedfennol i addysg yng Nghymru.

**Cyfeiriadau**

Beauchamp G., Crick T., a Thomas E. (2021). 'Golygyddol – Addysg fel cenhadaeth genedlaethol: rôl Cylchgrawn Addysg Cymru'. *Cylchgrawn Addysg Cymru* 23(1), tt. 3–7. https://doi.org/10.16922/wje.23.1.1cym

Beauchamp, G., Thomas, E., a Crick, T. (2022). 'Golygyddol: Ymchwil addysg yng Nghymru, o Gymru, ac i Gymru'. *Cylchgrawn Addysg Cymru* 24(2), tt. 1–5. https://doi.org/10.16922/wje.24.2.1cym

Davies, A. a Beauchamp, G. (2024). "Pwy a gyfyd Cymru? By whom shall Wales be raised?" Chwarter canrif o bolisi addysg datganoledig yng Nghymru. *Cylchgrawn Addysg Cymru* 26(2), 1–3. https://doi.org/10.16922/wje.26.2.1cym

Hammersley, M. (2012). *Methodological Paradigms in Educational Research, adnodd ar-lein Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain*. Gw. https://www.bera.ac.uk/publication/methodological-paradigms-in-educational-research (Cyrchwyd 1 Mawrth 2025)

Inglis, M., Foster, C., Lortie-Forgues, H., a Stokoe, E. (2024). British education research and its quality: An analysis of Research Excellence Framework submissions. *Cylchgrawn Ymchwil Addysgol Prydain*, *50*(5), 2495–518. https://doi.org/10.1002/berj.4040

Pinar, W. F. (2017). 'That first year', *Currere Exchange Journal, 1*(1), 1–10.

Poetter, T. (2024). 'Editor's Introduction: exploring Currere as A Catalyst For Curriculum Change in Wales'. *Currere Exchange Journal*, 8(2), tt.51–3.

Smith, K. (2024). *Currere Cymru: How can autobiographical curriculum theorising enhance teachers' curriculum work in Wales?* Gw. https://blogs.cardiff.ac.uk/drkevinsmith/currere-cymru-how-can-autobiographical-curriculum-theorising-enhancement-teachers-curriculum-work-in-wales/ (Cyrchwyd 1 Mawrth 2025)

Tennant, J. P., Crane, H., Crick, T., Davila, J., Enkhbayar, A., Havemann, J., Kramer, B., Martin, R., Masuzzo, P., Nobes, A., Rice, C., Rivera-López, B., Ross-Hellauer, T., Sattler, S., Thacker, P. D., a Vanholsbeeck, M. (2019). Ten Hot Topics around Scholarly Publishing. *Publications*, 7(2), 34. https://doi.org/10.3390/publications7020034

Thomas, E., Crick, T. a Beauchamp, G. (2023). 'Golygyddol — Rhagweld y "Normal Newydd" Ôl-COVID ar gyfer Addysg yng Nghymru'. *Cylchgrawn Addysg Cymru* 25(2), 1–7. https://doi.org/10.16922/wje.25.2.1cym